

Papur Pawb

Pris: 50c

Mehefin 2011

Rhif 368

Gwnaed yng Nghymru,
gwerthwyd yng Nghymru – tud 12



tud 3

Pobl a Phethe

tud 4/5/9

Ysgolion

tud 8

Teyrngedau

tud 12

Chwaraeon

Gogoniant y Gwanwyn

Bydd nifer o ddarlennwyr Papur Pawb wedi sylwi ar y pentref bychan o bebyll mawr a faniau sydd wedi ymddangos yn ddiweddar yn Eglwysfach. Mae cyfres Bywyd Gwyllt BBC 2, 'Springwatch' yn cael ei ddarlledu'n fyw o warchodfa natur yr RSPB yn Ynys-hir a'r clwstwr yma o fwrllwn yw pentref cynhyrchu'r rhaglen. Ar y warchodfa ei hun, mae'r sied dractor wedi ei thrawsnewid yn stiwdio a ddefnyddir i ddarlledu'n fyw gan y tri cyflwynydd rheolaidd. Dechreuwyd ar y gwaith darlledu o dair wythnos cyfan ar 30 Fai gan gyflwyno'r gwylwyr i'r bywyd gwyllt cyfoethog ac amrywiol ar y warchodfa gan ddefnyddio ffilm o 50 o gamerâu bach sy'n gwlyio'r nythod adar a bywyd gwyllt eraill. Mae deugain milltir o gebl ffeibr optig yn cysylltu'r camerâu i'r pentref cynhyrchu a gellir gweld darllediadau ar y rhaglenni byw ac yn fyw ar y we o nythod adar megis y dylluan wen, piod y môr, crehyrod glas, tingochiaid a'r gwybed brith. Y cymeriad newydd diwedddara welwyd ar gamera yw telor y gwair. Bydd trigolion lleol yn clywed yr adar bach yma yn canu mewn ardaloedd corslyd ac mae'n nhw'n swnio'n debyg iawn i geiliog rhedyn swnllyd iawn ond pur yn aml y gwelir yr adar bychan brown yma.

Y lleoliad prydferth a'r cynefinoedd amrywiol a ddenodd gynhyrchwyr y rhaglen i'r warchodfa. Mae'r coetir derw, y tir porfa gwlyb, y gors fawn, y



Martin Hughes-Games, Chris Packham,
a Kate Humble

morfa heli, y corswellt, yr afonydd a'r pyllau yn cartrefi amrywiaeth wych o adar ac anifeiliaid eraill. Yn ystod y gwanwyn mae'r coedwigoedd yn llawn blodau gwyllt gydag adar yn nythu ym mhob man. Gwelwyd dyfrigwn yn ddiweddar yn y pyllau ac mae ymlusgiaid megis nadroedd gwair a madfalloedd cyffredin yn bywiocau ar ddyddiau cynnes. Mae cornchwilogod a phibyddion coesgoch yn nythu ar y porfeydd gwlyb yn y cynefinoedd rheiny a wellwyd ar eu cyfer.

Mae bobl yn ymweld ag Ynys-hir i chwilita a darganfod byd natur trwy gydol y flwyddyn o ardaloedd ar draws Cymru ynghyd ag ysgolion lleol a thu hwnt. Mae gwirfoddolwyr ychwanegol wedi eu recriwtio i'r warchodfa dros y cyfnod ffilmio i gynnal gweithgareddau ar gyfer ymwelwyr megis teithiau tywys, gweithgareddau crefft, trochi yn y pyllau a hela pryd. Caiff lluniau byw o'r camerâu yn y bocsus nythod eu dangos ar sgrin yn y ganolfan ymwelwyr gyda staff wrth law i ateb unrhyw gwestiynau.

Mae Springwatch yn rhoi'r cyfle i bobl lleol cael cip ar y bywyd gwyllt amrywiol sydd yn ein hardal ac anogir pawb i ymweld â'r warchodfa er mwyn cymryd rhan yn y gweithgareddau neu i wyllo darllediadau byw o'r holl fywyd gwyllt ar <http://www.bbc.co.uk/nature/uk/webcams/>

Monica Lloyd-Williams



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis.	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Siân Saunders, Is y Coed, Taliesin	832230
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Geraint Pugh, Dôl Pistyll	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Murrnawr, Tal-y-bont	
Ysgrifennydd:	Sian Pugh, Dôl Pistyll	832433
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont	832442
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry Jones, Bloddyn Huws (Tanygrifiadau)	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cyfarfod Blynnyddol Papur Pawb

8.00 yr hwyr yng ngwaelod
Neuadd Goffa Tal-y-bont
nos Fawrth 28 Mehefin
PANED A CHACEN I
DDILYN

BBQ Cartref Tregerddan

Nos Wener
17 Mehefin 2011

Am 6.30 yr hwyr

£5 (gan gynnwys pwddin)
£2 (plant)

Eglwys St. Pedr, Elerch GWIN, CAWS A CHÂN

(awyr agored – tywydd yn caniatáu)
**CÔR MEIBION CARON
PLANT YSGOL
GYNRADD TAL-Y-BONT
ENSEMBLE TALIESIN**
NOS WENER 24 MEHEFIN 2011

7-00 yr hwyr
TOCYN: £6-00 / PLANT: £1.50

**Cwmni Drama Licris Olsorts
“Ni'n Dwy” a
“Y Sics Ten o Euston”**
Nos Fawrth 5 Gorffennaf
8 yr hwyr
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Dyddiadur

Mehefin

- Bethel** 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Rhydian Griffiths
Rehoboth 10 Bugail
Bethesda, Tynant 3.30 o'r gloch,
Parch Richard Lewis
- Sefydliad y Merched** Taith i Felin
Ganol, Llanrhystud
- Bethel** 10 Undebol yn Soar,
Llanbadarn
Nasareth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth, Garn
- Merched y Wawr** Taith Flynyddol
- Sefydliad y Merched** 'Prynhawn
aelodau' 2 o'r gloch
- Clwb Nos Wener** Ail Symudiad
- Bethel** 2 Parch J. Tudno Williams
(C)
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 Parch Richard Lewis
- Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas
Cae'r Olyn Galch**, Neuadd Goffa
am 7.30

Gorffennaf

- Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail (C)
- Neuadd Goffa, Tal-y-bont** Drama
Licris Olsorts 8 o'r gloch "Ni'n
Dwy" a "Y Sics Ten o Euston"
- Bethel** 10 Parch Gwylfa Evans
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth, Garn
Rehoboth 10 Morris J. Morris
Bethesda, Tynant Oedfa gyda
Ysgol Sul Bethel 2yp
- Pwyllgor y Neuadd** 8 o'r gloch
- Bethel** 2 Parch Andrew Lenny
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 2 Adrian Williams
- Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Bugail
- Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Gwyn Davies

Awst

- Bethel** 5 Raymond Davies
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Glyn Morgan
- Bethel** 10 Arwyn Pierce
Nasareth
Rehoboth 10 Beti Wyn Holmes
- Bethel** 5 Parch Wynne Davies (C)
Nasareth
Rehoboth 10 Beti Griffiths
- Bethel** 2 Raymond Davies
Nasareth
Rehoboth 10 Gordon MacDonald

Medi

- Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 2 Bugail

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn
**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Mair a Beryl gyda Ceri'n dylunio.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd
Medi 832725;
llannerch@globalnet.co.uk,
Mared a Llio. Dylai'r deunydd fod yn
llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener
2 Medi a bydd y papur ar werth
ddydd Gwener 9 Medi.

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Pwys 5120 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Mathew Davies Plymio a Gwresogi



07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilffôn



Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BF Goodrich



KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com



Croeso i'r Ficer Newydd

Cawsom hanes y Parchedig Peter Owen Jones yn rhifyn mis Mai o Bapur Pawb ac erbyn hyn mae wedi cael ei ordeinio'n ficer ar Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont, Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn ac Eglwys i'r Holl Saint, Llangorwen. Diolch i bawb o'r dair Eglwys a fu'n helpu i wneud noson yr ordeinio yn un llwyddiannus.

Pasio Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i dri sydd wedi pasio eu prawf gyrru yn ddiweddar sef, Llion Jenkins, Dolwerdd, Eglwysfach; Dafydd Evans, Cefngweiriog, Taliesin a Garmon Nutting, Tŷ Hen Henlllys, Tal-y-bont.

Pob Dymuniad Da

Pob dymuniad da i Kayleigh Hughes, 6 Maes y Felin, Tal-y-bont ar gael ei phenodi yn athrawes yn Ysgol Plascrug. Bydd Kayleigh yn cychwyn yn ei swydd newydd fis Medi.

Pen-blwydd Arbennig Hapus

Pob dymuniad da i Sadie Jenkins, 102 Maes-y-deri sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar y 10fed o Fehefin.

Ennill Cwpan

Enillodd Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl gwpan am y darn gorau o lenyddiaeth yn Eisteddfod Tal-y-bont, Y Bala, yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i David Elwyn Griffiths, Nantddu sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn ddiweddar, ac hefyd i Janet Jones, Llwynglas a gafodd driniaeth yn Abertawe. Hefyd mae Idris Jones, Llwynyr yn yr ysbyty ar ôl cwympo yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Simon Lloyd-Williams ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Priodas Garmon a Hannah

Garmon Gruffydd, Bryngwyn a'r Lolfâ, a Hannah Whittle o Gross Hands ar ddydd eu priodas yn ddiweddar. Cynhaliwyd y briodas yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth a'r wledde yng Ngwesty'r Marine. Mae Hannah'n astudio mathemateg yn y brifysgol yn Aberystwyth ac fe dreuliwyd eu mis mêl ger Llyn Llanwddyn.



Priodas Martin a Laura

Martin Swanson, Tŷ Coets, Glandyfi a Laura Vaughan, Penparcau a briododd yn Eglwys Sant Mihangel, Ffwrnais ar 14 Mai. Cynhaliwyd y wledde yng Ngwesty Ynyshir a'r macwy oedd Billy Swanson o Dal-y-bont. Treuliwyd eu mis mel yng ngwlad Groeg a maent yn byw yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs V Jones, Y Wern am ddod yn hen fodryb eto, ganwyd merch fach Arwen, i Iestyn a Non Morris ym Meisgyn, hefyd i Val a Michael Deaville, Dôl Pistyll sydd wedi cael wyr newydd - Geraint Llŷs. Cafodd ei eni i'w merch Jen a

Rhys ar 28 Mai yn Aberystwyth. Brawd bach i Glesni ac Ynyr.

Hefyd llongyfarchiadau i Liz a Richard Spencer, Tŷ Manceinion, ar enedigaeth eu hwyr newydd ym mis Mai. Pob dymuniad da hefyd i'r rhieni Josie ac Ed sy'n byw ger y Fenni.

Eisteddfod yr Urdd

Rhaid llongyfarch nifer o ddisgyblion talentog yr ardal a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd dros hanner tymor.



Cyflwynwyd Ysgoloriaeth Gelf Dylunio a Thechnoleg, sy'n werth £2,000 i **Llio James**, Llanerch am y gwaith mwyaf addawol gan unigolyn rhwng 18 a 25 oed.

Dawnsywyr buddugol oedd **Elan Elidir**, Simne Wen, a **Lois Jones**, Gellimanwydd, a oedd yn aelodau o barti Dawnsio Disgo (bl 10 a dan 19 oed) Penweddig. Buddugol hefyd oedd grŵp Dawns Cyfansoddiad Creadigol (bl 7 a dan 19 oed) Penweddig ac **Elen Ebenezer**, Maes-y-felin a **Medi Evans**, Neuadd Fawr oedd yn aelodau o'r grŵp hwnnw. Cafodd Medi yr 2il wobwr yng nghystadleuaeth Gemwaith (bl 7 ac 8).

Llongyfarchiadau hefyd i **Esther Llwyd Ifan** am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth Rhyddiaith Blwyddyn 8 am ysgrifennu stori. Roedd ei stori i'w gweld yn y Cwtsh Cymraeg ar faes yr eisteddfod ac mae wedi'i chynnwys yn 'Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Abertawe a'r Fro 2011'.

Roedd **Sonny Davies**, Pen y graig, Ffwrnais a **Keira Forster-Brown**, Eglwysfach yn aelodau o Gân Actol i ddysgwyr (blwyddyn 6 ac iau) Ysgol Plascrug, a ddaeth yn gyntaf. Hefyd roedd Keira yn aelod o'r Ymgom a ddaeth yn drydydd.

Enillodd **Osian Penry**, Y Felin yr 2il wobwr yn y gystadleuaeth Chwythbrennau b7 - 9, ac yn aelodau o Ensemble Ysgol Penweddig (Bl 7, 8 a 9) a ddaeth yn 2il, oedd **Carwyn Hughes**, 6 Maes-y-felin a **Steffan Thomas**, Glas y Ddôl. Hefyd llongyfarchiadau i **Tara Howard**, Maesglas, a **Niamh O'Brien**, Cytringan am fod yn aelodau o grŵp Dawnsio Disgo Penglais (bl 7, 8 a 9) a ddaeth yn 2il. Hefyd **Emma**, mam Niamh, oedd wedi hyfforddi'r grŵp.

Cynrychioli Cymru

Ym mis Gorffennaf eleni byddaf yn teithio i Awstria ar gyfer Ail Gyfarfod Rhyngwladol y Gwenynwyr Ifanc a gynhelir yn ysgol Cadw Gwenyn Cenedlaethol y Warth. Byddaf yn mynd yno fel un o dri cynrychiolydd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru gan gystadlu yn erbyn timoedd o 20 cenedl arall. Mae ambell wlad megis Gweriniaeth Czech yn cynnal cystadleuaeth genedlaethol er mwyn dewis y gwenynwyr ifanc gorau i'w cynrychioli, ond yng Nghymru caiff y tîm ei ddewis ar sail y cyntaf i'r felin. Mae cynrychiolwyr eraill Cymru eleni yn dod o Ruthin ac Ynys Môn. Caiff y cynrychiolwyr eu beirniadu ar y canlynol: gwaith ymarferol gyda gwenyn, gwaith microsgop, adnabod offer gwenynwyr, planhigion yn ymwneud â chadw gwenyn a gwybodaeth academiaidd am weny. Bydd yn ddiddorol iawn gweld sut y mae'r arfer o gadw gwenyn yn Awstria yn gwahaniaethu i'r hyn sy'n arferol yng Nghymru a chael cyfarfod gwenynwyr eraill o weddill y byd.


Ianto Hammonds



Dathlu Priodas Ddeiamwnt

Priododd Menna Bennett (o Maenuwch, Borth) â Bennett Jenkins yng Nghapel y Garn, Bow Street ar yr Zail o Fehefin 1951. Y gweinidog ar yr adeg honno oedd Y Parchedig J. Wallace Thomas. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Marine. Treuliwyd y 30 mlynedd cyntaf yn byw yn Cerrig Caranau, cyn symud i Ynys Capel yn 1981.

Dymunant ddiolch i bawb am eu cyfarchion a'u dymuniadau da, yn enwedig i Janet, Llwyn Glas, am y gacen arbennig.



Pysgota

Mae Tal-y-bont yn enwog am gynhyrchu pysgotwyr disglair a'r diweddaraf i ennill clod yw Ifan Astley a gipiodd Tlws Coffa Ernest Higgs mewn cystadleuaeth flynyddol ar lyn Clywedog ar 15 Mai. Ar ddiwedd y dydd Ifan oedd â'r cwydn trymaff a oedd yn llawn o frithyll. Llongyfarchiadau iddo.

Ysgol Tal-y-Bont



Catrin, Seren a Betsan Siencyn, enillwyr yr ensemble offerynnol



Glain Llwyd Davies



Seren Powell-Taylor



Catrin Huws




Ffilmio yng Nghapel Bethel

Bu'r cyflwynydd poblogaidd, sydd hefyd yn actor a digrifwr ac yn hanu o Gaerdydd, Griff Rhys Jones, yn Nhalybont yn ddiweddar yn recordio eitem ar gyfer cyfres ddogfen newydd o'r enw Routes of Britain fydd yn cael ei darlledu ar BBC 1 tua diwedd y flwyddyn. Yn ystod y gyfres bydd Griff Rhys Jones yn dilyn taith yr hen bererinion o Dreffynnon yn y Gogledd i Dyddewi yn y De ac yn galw heibio ambell le o ddiddordeb hanesyddol a chrefyddol ar y ffordd. Yr oedd y criw ffilmio wedi aros yn Nhalybont i recordio cyfweiliad efo'r Parch. Richard Lewis fel Gweinidog Bethel er mwyn cael cael peth o hanes Bethel ac er mwyn cael rhyw syniad o agwedd Anghydffurfiol ar yr arfer o bererindota. Tra'n cyfweiliad Richard cafwyd cyfle hefyd i recordio eitem ar yr organ gan Fal ar sylw gan bawb oedd mor hyfryd yw'r sain sydd yn cael ei gynhyrchu gan yr organ. Fel mae'n digwydd dyma'r ail dro o fewn ychydig wythnosau i'w gilydd i griw ffilmio ymweld a Bethel gan fod Cwmni Da Cyf. wedi bod yno ychydig cyn y Pasg yn recordio eitem ar gyfer y gyfres Ar Lafar sydd yn cael ei darlledu ar hyn o bryd. Yn yr eitem hon mae cyflwynydd y gyfres, Ifor ap Glyn, yn ceisio dirnadau lle'n union mae'r ffin rhwng y De a'r Gogledd.

Ysgol Tal-y-Bont

Llongyfarchiadau i'r disgyblion o flynyddoedd 4 a 5 a fu'n cynrychioli'r ysgol yng nghystadlaeth Trawsgwlad yr Urdd Ceredigion. Da iawn chi am yr ymdrech arbennig.



Croesawyd Hirome o Siapan yn ôl i'r ysgol yn ddiweddar. Treuliodd blynyddoedd 5 a 6 bore diddorol arall yn ei chwmni yn dysgu am Siapan a'i phobl.

Llongyfarchiadau i Miss Caryl Jones ar gael ei phenodi yn aelod o'r staff dysgu am ddeuddydd a hanner yr wythnos. Croeso i'n plith!



Treuliodd tîm pêldroed o fechgyn blynyddoedd 5 a 6 brynhawn dydd Gwener olaf yr hanner tymor yn cystadlu yn nhwrament ysgolion cylch Aberystwyth. Bu cystadlu brwd iawn – diolch am eich ymroddiad fechgyn.

Llongyfarchiadau mawr i'r bedair a fu'n cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Bu Glain Llwyd Davies yn cystadlu ar yr unawd cerdd dant dan 8, Seren Powell-Taylor ar yr unawd chwythbrennau, Catrin Huws ar yr unawd telyn a Seren, Catrin a Betsan Siencyn ar yr ensemble offerynnol. Nid yn unig llwyddodd y bedair i gyrraedd llwyfan y brifwyl ond clorianwyd eu hymdrechion gydag un ail wobwr a thair gwobr gyntaf. Gwych!

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Baneri Rehoboth a Soar

Wrth ddiolch i'm cyfaill John Leeding am hanes gorymdeithio y tu ol i'r baneri ar y Groglith gynt yn y rhifyn diwethaf, mae'n dda gwybod fod baner Soar yn ddiogel yn Sain Ffagan. Ond o gofio bwriad R.J. Thomas o ddiogelu pethau'r capeli yn Amgueddfa'r Hen Gapel Tre'r-ddôl er mwyn inni gael eu gweld yno, mae'n drist na ddigwydd hynny bellach. Storfa i Amgueddfa Geredigion yw'r Hen Gapel erbyn hyn. Rwy'n tybio mai oddiyno y daeth baner Rehoboth i arddangosfa ddiweddar Amgueddfa Ceredigion

Gobeithio fod baner Y Deg Gorchymyn, oedd ar fur festri Rehoboth yn ymyl y llall wedi'i diogelu hefyd. Byddem yn adrodd y dengair deddf ar derfyn yr Ysgol Sul a dywedodd y diweddar Archesgob Donald Coggan y byddai'n cymdeithas ddi-reol a di-foes ni yn cael ei hiachau o wybod am y gorchymynion. A dyma sylw'r diweddar Barchg. T.Glyn Thomas, Wrecsam: 'Y mae gwarediad a sylfaenwyd ar Y Deg Gorchymyn yn marw am iddo eu torri – aethom i gredu y gallem gicio'r sylfeini o'r neilltu heb ddymchwel yr adeilad a godwyd ganddynr'.

Parodd gweld yr hen faner imi feddwl am fy nyled i festri Rehoboth lle mynychais ddosbarthiadau Ysgol Sul y chwiriwydd Gwladys a Ruth Jones(a sgrifennodd lyfrau crefyddol); Ceridwen Pugh Jones; Evan Thomas a Caledfryn Evans. Roedd Caledfryn yn dweud wrthyf o hyd ei fod yn credu fod ei ddosbarth yn un dylanwad a'm harweiniodd i'r weinidogaeth, a minnau'n falch o gydnabod hynny. Da cydnabod hefyd lafur athrawon eraill a doniau Jennie Thomas a Lilian Edwards wrth yr organ a'r piano ac yn ein paratoi at y cyrddau cystadleuol.

Yn ein cyfnod ni pan mae capel a chrefydd a Iesu Grist yn 'boring', cofio am hwyl yr Ysgol Sul a'r 'Band of Hope' wnaif i. Rwy'n cofio'r tro cyntaf y daeth y diweddar Barchg. R.Hughes Edwards i'r Gobeithlu ym 1945, newydd ei sefydlu'n weinidog, a phawb yn ddistaw nes i'm cyfaill hoff Harri ofyn iddo: 'Mr. Edwards ydech chi'n gwobd enw gôlci-par Cardiff City?' Am ei fod yn gwybod credai Harri a minnau na allem fod wedi cael bugail rhagorach! Roedd Harri yn gwybod canlyniad pob gêm bêl-droed ar y Sadwrn, ond fel y gweddill ohonom yn methu cofio adnod i'w dweud wrth bregethwr y sul! Nid rhyfedd i un ohonom ddweud un tro – 'Myfi yw bara Powell!' Bu Mam yn forwyn yng nghartref Powell y bara yn Aberystwyth ac yn addoli gyda'i deulu yn Seilo. Bu mab Hughes Edwards, William George yn gyfaill da i mi ac i'm cefnder Arthur Wynne gweinidog Tregaron gynt, hyd ei farw rai blynyddoedd yn ôl.

Am na ellid mynd am drip Ysgol Sul yn ystod y rhyfel rwy'n cofio sawl te parti a chwaraeon yn y festri ac ar y lawnt ac am bicnic cofiadwy ar ben Y Graig Fawr. Criw niferus yn cerdded i fyny drwy'r coed a'r dynion yn cario'r bwyd a'r ddiod. Mabolgampau wedi'r gwledda ac Evan Thomas yn rhoi tasg inni – chwilio am y darn chwecheiniog(arian da ar y pryd) a guddiodd wrth fôn llwyn eithin. Ddaeth neb o hyd iddo ac y mae yno o hyd am wn i gan na chofiai Evan lle cuddiodd y darn. Wrth gerdded hebio i Gefn Erglodd ac i ben y graig dro yn ôl welais i ddim mo'r darn chwech! Y flwyddyn wedyn cafwyd y trip cyntaf wedi'r rhyfel a chyrchu i Landrindod a wnaethom. Mynd ymhellach y flwyddyn wedyn, i Gaernarfon am tro cyntaf erioed. a Caledfryn Evans yn dangos craig Pulpud y Diafol, Tal-y-llyn, inni. Diolch ei fod wedi fy arwain yn yr Ysgol Sul i gyfeiriad Pulpud y Gair.

W.J.Edwards

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Merched y Wawr

Nôs Lun 16 Mai croesawyd ni'n gynnes gan Ellen ap Gwynn i'r Cyfarfod Blynyddol. Y wraig wadd oedd yr artist Lowri Davies sydd yn bencampwraig ar Cerameg a Chrochenwaith. Roedd y gwaith yn arbennig iawn gyda llawer o luniau a ffigurau o bobl a natur Cymru. Bydd Lowri yn un o ddeg artist gwadd yng Ngwyl Cerameg Ryngwladol 2011 a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yng Ngorffennaf. Diolchwyd iddi gan Falyri Jenkins am noson arbennig o ddiddorol.



Enillodd Beti Jenkins Carregadwgan y wobwr gyntaf am ei chlustog yn Wyl Fai Merched y Wawr yn Felinfach yn ddiweddar ac yn awr bydd yn mynd trwyddo i'r rownd Genedlaethol yn Llanelwedd ym Mis Gorffennaf. Hefyd cafodd ail am lunio ffram llun a thrydydd am Eiscornu.

Dewiswyd pump aelod newydd i fynd ar y pwyllgor ym Mis Medi. Diolch i Helen a Lynn am ddod i gyfrir pleidleisiau.

Cymdeithas y Chworiydd

Croesawyd Arvid Parry Jones, Tal-y-bont, i'r cyfarfod yn festri Rehoboth, Taliesin ar 8 Mawrth a chawsom gipolwg ar ei waith tu ôl i'r camera. Eglurodd sut mae pethau wedi newid ers pan ddechreuodd dynnu lluniau yn broffesiynol: ar un adeg roedd yn rhaid iddo deithio mewn car neu drên i bob rhan o'r wlad i drosglwyddo'i luniau, ond erbyn hyn gall anfon llun o fewn eiliadau i unrhyw le drwy gyfrwng cyfrifiadur. Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn diddorol.

Erwyd Howells oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar 12 Ebrill ac adroddodd hanes ei fywyd a'i yrfa fel bugail mewn modd hamddenol a chartrefol. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gwasanaethu ar lawer fferm yn yr ardal gan fwynhau pob munud yng nghwmni cymeriadau cefn gwlad. Adroddodd storïau difyr am ei fywyd a'i waith bob dydd a daeth â nifer o greiriau o fyd amaeth i'w dangos. Mae eisoes yn awdur sawl llyfr ac fe'i anogwyd i ysgrifennu ei hunangofiant er mwyn cael yr hanes ar gof a chadw. Diolchwyd iddo am brynhawn difyr iawn gan Myfanwy Rowlands ac Eirlys Jones. Margaret Jones ac Avril Bond oedd yn ngofal y te.

Daeth y tymor i ben gydag ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol ar 10 Mai, a threuliodd prynhawn difyr yn y Drwm yn gwylio hen ffilmiau o'r ardal yn cynnwys diwrnod Sioe Tal-y-bont, golygfeydd o Dre'r-ddôl a'r cyffiniau, a rhaglen Hywel Gwynfryn a recordiwyd yn Nhal-y-bont yn 1980. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain wrth adnabod y wynebau ar y sgrin, a chafwyd te yn y caffi cyn dod adre. Diolch i'r rhai a drefnodd yr ymweliad yma ac a luniodd raglen y flwyddyn.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Dengys y llun yr holl ysbwriel a adawyd ger y biniau ailgylchu yn Nhaliesin yn ddiweddar, ond nid gwastraff i'w ailgylchu yn y biniau ydoedd ond cewynnau budron, gwydr wedi torri, bwyd, teiers, cyfrifiaduron a dodrefn, sef ysbwriel a ddylai fynd i'r tip lleol. Mae'r trigolion lleol a staff yr ysgol yn poeni am hyn gan fod yr ysbwriel yma yn denu pob math o drychfilod ac felly yn fater o iechyd a diogelwch i blant a rhieni'r ysgol. Mae'n ofynnol i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol i gadw'r ardal o amgylch y biniau ailgylchu yn lân a thaclus gan eu bod yn derbyn arian i'w cronfa o'r gwastraff a ailgylchir yn y biniau, ond nid ydynt yn derbyn arian pan mae ysbwriel fel hyn yn cael ei adael yno ac sy'n gwneud i'r ardal edrych yn anniben.



Nid dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd, ac unwaith eto deallir mai trigolion LLEOL sy'n gyfrifol. Os gwelwch yn dda, cadwch ein cymuned yn ddaclus – peidiwch gadael ysbwriel – ewch ag ef i'r lleoliad cywir yn Ystad Ddiwydiannol Glan-yr-afon, Aberystwyth.



STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI GWASANAETH GOLCHI DWFES MAWR CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Cymorth Cristnogol Tal-y-bont

Dymuna Pwyllgor Cymorth Cristnogol Tal-y-bont a'r cylch, ddiolch i drigolion yr ardal gyfan am eu croeso i'r casglwyr â fu o gwmpas eleni eto, ac am eu rhoddion i'r elusen sydd mor deilwng. Hefyd diolch i'r casglwyr i gyd am roi o'u hamser a phetrol. Nid yw yn hawdd pan fydd eisiau galw ddwywaith neu dair.

A oes rhywun yn barod i gynorthwyo gyda'r casglu? Byddai'r pwyllgor yn falch clywed oddi wrthych, mae ambell un ohonom yn dechrau mynd yn ôl yr ein cam. Rhowch wybod i Janet Jones, ein trefnydd gweithgar, os ydych awydd cynorthwyo.

Carwn hefyd ddiolch yn bersonol i Heulwen o Swyddfa'r Post, mae'n gwneud fy ngwaith i fel trysorydd, yn llawer haws, trwy dderbyn yr arian a'i wirio, a'i ddanfon i'r lle priodol.

Dyma'r manylion:

Ardal Bontgoch (Geraint Evans)	£43.09
Maesyderi (Helen Jones a Lyn Ebeneser)	£62.73
Penlon (Menna Morgan)	£101.79
Ffald (Delyth a Bleddyn Huws)	£46.20
Pensarn a Cwm Ceulan (Gwilym Jenkins)	£86.96
Pentref Tal-y-bont (Gwen Hughes, Valma Jones a Glenys Edwards)	£141.25
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£146.00
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£161.50
Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos)	£190.01
Parsel Henlllys (Wendy Watkin a Janet Jones)	£98.00
Cyfanswm	£1077.55

Gwilym Jenkins

Sefydliad y Merched Eglwysfach

Juliet Regan, Llwydd y gangen, yn derbyn gwobr mewn cyfarfod Cyngor y Gwanwyn yn Felinfach. Mae'r gangen wedi llwyddo i gael y nifer uchaf o aelodau newydd yn y sir yn ystod 2010.



Enillwyr Gwobrau Cymraeg Tir Na N-Og

Mae **HYWEL GRIFFITHS**, Y Garth, Tal-y-bont, wedi cyflawni tipyn o gamp trwy gipio'r wobwr gynradd gyda'i nofel gyntaf i blant, *Dirgelwch y Bont*. Ffantasi hanesyddol yw hon sy'n dilyn antur tri ffrind wrth iddynt groesi ffin amser i gyfnod cyffrous Owain Glyndŵr. Mae'n un o deitlau Cyfres Strach a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Ganwyd Hywel yng Nghaerfyrddin a'i fagu ar fferm ger Llangynog. Dechreuodd ysgrifennu a barddoni o ddifri pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin. Aeth i Brifysgol Aberystwyth ac mae bellach yn ddarlithydd daearyddiaeth yno.



LLEUCU ROBERTS, awdur profiadol iawn a chyn-enillydd gwobr Tir na n-Og, ddaeth i'r brig yn y categori uwchradd eleni, a hynny am ei nofel *Stwff Guto S. Tomos*. Dyddiadur ffraeth bachgen pedair ar ddeg oed sy'n byw mewn teulu digon anghonfensiynol a geir yn y gyfrol hon, a gyhoeddwyd gan wasg y Lolfa fel rhan o Gyfres yr Onnen. Daw Lleucu, wrth gwrs, yn wreiddiol o Lanfihangel Genau'r Glyn yng Ngheredigion ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gyfun Penweddig a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac fe fu yn olygydd gyda'r Lolfa yn Nhal-y-bont. Mae'n byw yn Rhostryfan, Gwynedd ers pymtheg mlynedd ac yn awdur llawn-amser.



Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Dyma fy erthygl gyntaf ers imi gael fy ail-ethol i gynrychioli Ceredigion yn yr etholiadau Cymreig ar 05 Mai, a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gynrychioli buddiannau Ceredigion a'i thrigolion yn y Senedd ym Mae Caerdydd dros y pum mlynedd nesaf ac mae croeso i chi, fel arfer, i gysylltu â mi os allaf fod o unrhyw gymorth i chi.



Un o fy nghyfarfodydd cyntaf wedi'r etholiad oedd gyda Rhodri Williams, Cadeirydd OfCom yng Nghymru, er mwyn trafod cais perchnogion newydd Radio Ceredigion i newid fformat ieithyddol yr orsaf. Ers i'r gwasanaeth ddod o dan reolaeth perchnogion Radio Sir Gar a Radio Sir Benfro, mae nifer o drigolion lleol wedi bod yn pryderu y byddai'r defnydd o'r Gymraeg yn y darllediadau yn lleihau. Yn awr, mae OfCom wedi derbyn cais i leihau faint o Gymraeg sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau brig ac maent wedi cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau.

Yn ystod mis Mai, gwnes hefyd fynychu'r rali a gynhaliwyd yn Aberystwyth i wrthwynebu'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus mae'r llywodraeth ConDem yn eu cyflwyno. Ceredigion yn Erbyn y Toriadau oedd yn gyfrifol am yr orymdaith a'r cyfarfod ac roeddwn yn falch iawn i gael fy ngwahodd i annerch y dorf a'u hatgoffa cymaint y bydd y toriadau yn effeithio ar Geredigion, lle mae tua 40 y cant o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi gan y sector gyhoeddus.

Yn olaf, roeddwn yn falch i glywed y bydd y Dorch Olympaidd yn dod trwy Geredigion y flwyddyn nesaf yn ystod ei daith o amgylch y Deyrnas Unedig yn yr wythnosau cyn cychwyn y Gemau Olympaidd yn Llundain. Roeddwn wedi dechrau pryderu na fyddai Ceredigion yn elwa dim o'r paratodau ar gyfer y cystadlaethau yn ne-ddwyrain Lloegr ac rwy'n gobeithio y bydd trigolion lleol yn cael y cyfle i gario'r dorch.



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187

**E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Teyrngedau

Gwyneth Eleanor Evans (1923-2011)

Yn dawel ar ddydd Gwener 20fed o Fai, 2011 bu farw Gwyneth Evans, 2 Tyrrel Place, Tal-y-bont yng nghartref Plas Cwmcynfelin, yn 88 oed.

Roedd yn un o wyth o blant i John a Jane Thomas, a magwyd hi yn Nant y nôd, Cwm Ceulan. Cafodd ei haddysg yn ysgol Tal-y-bont a phan yn bedair ar ddeg oed aeth i weini mewn gwahanol gartrefi yn yr ardal, gan gynnwys Tŷ'n Llechwedd, Llandre a fferm Maesnewydd, Tal-y-bont.

Ym 1943 priododd â'r diweddar Dewi ac yn fuan wedyn symudont i fyw i Rose Cottage (Tŷ Canol erbyn hyn) ac ym 1957 i Tyrrel Place lle bu Gwyneth yn byw nes gorfod symud i gartref Plas Cwmcynfelin am y bum wythnos olaf o'i bywyd. Magodd bump o blant sef Beryl, Dorothy, Carol, David a John a bu fyw i fod yn famgu a hen famgu.

Bu'n gweithio am gyfnod yng nghegin yr 'hen' ysgol ac wedyn bu'n gweini yng nghegin Mr a Mrs Ery Davies, Central Stores pan oedd eu merch Kathleen yn rhedeg y Swyddfa Bost. Yn ddiweddarach bu'n gweithio yng nghegin ysgol 'newydd' Tal-y-bont, hyd at ei hymddeoliad yn 65 oed. Daeth yn adnabyddus i blant y pentref bryd hynny a bydd llawer o'r pentrefwyr heddiw yn ei chofio oherwydd hyn.

Roedd ei bywyd yn troi o amgylch ei chartref a'i theulu, a bu'n ffodus o gael cymdogion da ar hyd y blynyddoedd. Hynt a helynt eu phlant a'u teuluoedd oedd yn bwysig iddi, a byddai wrth ei bodd yn mynd atynt i aros yn eu gwahanol ardaloedd, gan mai dim ond John ei mab ieuengaf oedd wedi ymgartrefi yn Nhal-y-bont.

Roedd yn gaeth i'w thŷ yn ystod y blynyddoedd olaf, ond gwelid hi'n aml yn sefyll ar drothwy'r drws ffrynt er mwyn gweld pwy fyddai'n pasio heibio.

Bu'n aelod yng nghapel Nazareth, Tal-y-bont bron trwy ei hoes, a dyna lle y cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol ar ddydd Gwener 27ain o Fai, dan ofal ei gweinidog y Parch. Wyn Morris. Fel y cyfeiriodd ef ac hefyd ei chyn-weinidog y Parch. Elwyn Pryse, fe'i cofir hi fel person caredig a chymwynasgar. Roedd y nifer teilwng a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf iddi yn dyst i hyn. Rhoddwyd ei chorff i orffwys ym mynwent gyhoeddus Tal-y-bont.

Cydymdeimlwn gyda'r teulu i gyd yn enwedig John a fu mor ofalus ohoni yn ymweld â hi sawl gwaith y dydd.

David Evans



Bryn Lewis (1956-2011)

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth fy hen ffrind, sef Bryn Lewis, gynt o Tynllwyn, Llangynfelyn, a Wesley Terrace, Taliesin.

Fe gafodd Bryn ei eni ar Ionawr 20fed 1956, y trydydd o bump o blant i Mr a Mrs Harold Lewis, Tynllwyn. Rwy'n cofio ei ben-blwydd yn iawn, gan fy mod wedi fy ngeni ym mis Mai yr un flwyddyn. Yr wyf yn cofio'r diwrnod cyntaf i ni'n dau yn Ysgol Llangynfelyn ym Medi 1960, y ddau ohonom yn teimlo fel pob plentyn ar ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol, wrth i ni leinio i fyny gyda'r plant eraill a oedd yn yr un sefyllfa â ni o dan y gloch.

Fe ddeuthom yn ffrindiau da o'r diwrnod hynny ymlaen, ac fe aethom ni'n dau i Ysgol Uwchradd Dinas, Aberystwyth (sydd yn fwy adnabyddus fel Penglais erbyn hyn) ym Medi 1967. Roedden ni'n dau yn aelodau cyson o dîm pel droed Taliesin, ac rwyf yn cofio Bryn yn gefnwr medrus a oedd yn taelo'n galed, ond yn deg. Rwy'n cofio'r gemau hynny yn erbyn hogiau Tal-y-bont, oedd yn gallu bod yn ffyrnig ar adegau, fel Celtic yn erbyn Rangers, Lerpwl ac Everton, Manchester United a City, neu Caerdydd ac Abertawe. Roedd y ddau ohonom yn gefnogwyr brwd o Manchester United y pryd hynny, yng nghyfnod euraidd y clwb, gyda chwareuwyr fel Bobby Charlton, Dennis Law, a'n harwr ni i gyd, George Best. Serch hynny, ym mhen amser, rygbi ddaeth yn hoff gamp Bryn, ac fe gafodd ei ddewis i chwarae yn safle'r prop yn nhimau dan 13 oed, a dan 15 oed yr ysgol ac aeth ymlaen i chwarae i dîm Machynlleth ar ôl gadael ysgol. Roedd Bryn yn hoff iawn o fynd i weld Cymru'n chwarae.

Ar ôl gadael yr ysgol aeth Bryn i weithio i'r adeiladwr Elwyn Evans fel prentis saer coed ac fe ddaeth yn saer arbennig o dda gyda graen ar ei waith. Fe groesodd ein llwybrau unwaith eto yn 1978 pan ddychwelodd i Ysgol Llangynfelyn, nid fel disgybl y tro hwn, ond i godi cegin newydd gyda cwmni'r Brodyr Daniel o Lanybydder. Fe welsom lawer o'n gilydd ar ôl hynny am rai blynyddoedd, wedi iddo symud i fyw ar draws y ffordd i mi yn Nhaliesin gyda'i briod, lle magwyd eu plant, Amy ac Adam.

Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd Bryn yn byw yng Nghastell Newydd Emlyn, ac yno bu farw ar ôl cyfnod o salwch. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn amlosgfa Narberth, lle roedd llawer o'i ffrindiau a chymdogion wedi ymgynnull i dalu'r deyrnged olaf iddo. Estynwn ein cydymdeimlad dwys a Amy ac Adam, i'w dad Harold, ac i'w frodyr a chwiorydd, John, Geraint, Delyth ac Eleri ac i'r teulu oll.

Diolch am yr atgofion melyn, Bryn.

David Bond



Cwmni Licris Olsorts

Mae'r cwmni wedi bod yn brysur eleni eto. Yn ystod mis Chwefror teithio i Lanrhaadr ym Mochnant i wyl ddrama Powys gyda'r ddrama **Ni'n Dwy** gan Nan Lewis gan gipio'r wobr gyntaf. Yna ym mis Ebrill teithio i'r gogledd i wyl ddrama'r Groeslon gan ddod yn ail. Mae'r ddrama yma yn cyfleu sefyllfa gyfoes lle mae teulu un rhiant yn byw mewn tlodi a phroblemau seicolegol. Lleolir y ddrama mewn ystafell fler a digysur yr olwg, ynddi mae'r teulu yn byw ac yn cysgu. Yn y ddrama yma mae Catrin Jenkins wedi cipio gwobr y prif actor/actores bedair gwaith gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy y llynedd gyda ei phortread o Mari.

Y ddrama arall yw **Y Sics Ten o Euston**, gan Gwynedd Huws Jones, Llidiardau, Y Bala. Drama newydd gafodd ei pherfformio am y tro cyntaf y llynedd. Mae'r cwmni wedi cael gwahoddiad i gystadlu eleni gyda'r ddrama, yn eisteddfod Wrecsam. Drama yw hon am bedwar person sydd yn teithio adref ar y tren o Lundain yn ystod Rhyfel gyntaf Irac. Daw'r pedwar o gefndir, swyddi ac amgylchiadau gwahanol, ond fel mae'r daith yn mynd rhagddi down i wybod am stori pob un ohonynt, eu gobaith a'u gofidiau. Bydd y ddrama yn cael ei pherfformio yn Theatr Fach y Maes, Dydd Llun Awst 1af am un o'r gloch. Bydd cyfle i weld y ddwy ddrama yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Fawrth, 5 Gorffennaf.

8

Gwirfoddoli ym Mentro Lluest

Tybed a fyddai diddordeb gan rai o ddarlennwyr Papur Pawb yn y gwaith gwirfoddol dw i'n ei wneud i Mentro Lluest ers dros ddwy flynedd bellach? (Yn wir, mae ychydig ohonon ni sy'n mynychu'r lle'n rheolaidd yn byw yn nhalgylch Papur Pawb.) Elusen arddwriaethol gyda pholisi drws agored yw Mentro Lluest sy'n golygu bod mynediad i bawb ni waeth beth yw ei oedran neu i allu. Ei nod yw gwella iechyd a lles pobl trwy arddio therapiwtig a hefyd cynnig cyfle iddynt gymdeithasu mewn awyrgylch diogel a chefnogol.

Byddaf yn mynd yno bob bore dydd Mercher ac yn helpu gyda phob math o dasgau'n ôl y galw, er enghraifft chwynnu, hau hadau, trosglwyddo planhigion bychain i botiau mwy a dyfrio. Nid yn unig dw i'n cael y boddhad o gyfrannu rhywbeth i'r gymuned a chefnogi rhai pobl lle bo angen, ond dw i hefyd yn dysgu llawer am arddio a chadwraeth ac yn cael y cyfle i ymarfer ac i gymdeithasu mewn lleoliad hyfryd.

Os oes diddordeb gennych chi mewn gwirfoddoli neu brynu llysiau neu ffrwythau organig a thymhorol, neu blanhigion cysylltwch â Chris Glover yn y swyddfa: (01970) 612114.

Siân Saunders



Ysgol Llangynfelyn Codi arain

Cystadleuaeth 'Yellow Pages'

Efallai y cofiwch rhai misoedd yn nôl i'r ysgol gymeryd rhan yng nghystadleuaeth gyda'r 'Yellow Pages'. Yr her oedd ceisio casglu cymaint ag yn bosibl o hen glorïau'r 'Yellow Pages'. Casglwyd 58 clawr a dyfarnwyd bod yr ysgol yn haeddi gwobr o £50 am yr ymgais yma. Byddwn yn gwario'r arian ar adnoddau garddio newydd.



Clwb Garddio

Mae'r Clwb Garddio yn cwrdd yn rheolaidd ar ôl ysgol ar nos Iau. Rydym wedi plannu amryw o hadau llysiau gan gynnwys moron, betys, pannas, letys, roced a phlanhigion ffa dringo, blodfresych a thomatos. Mae'r plant hefyd wedi bod yn brysur yn palu a phlannu blodau gwyllt yn yr Ardd Pili-pala. Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod wrthi'n brysur hefyd yn plannu eu gardd lysiau hwy. Mae ganddynt Ardd Berlysiau newydd a gobeithiwn byddwn yn medru denu mwy o weny ac ieir bach yr haf i'r ardd. Diolchwn i'r rhieni sydd wedi bod yn cynorthwyo'r athrawon gyda'r gweithgareddau garddio. Mae'r plant yn gobeithio gwerthu'r cynnyrch o'r gerddi i'r rhieni a'r gymuned erbyn diwedd yr haf.



Prosiect Comenius

Mae plant ac athrawon yr ysgol yn brysur iawn yn paratoi at ymweliad criw o athrawon o'r Almaen, Denmarc ac Iwerddon o'r 8fed i'r 11eg o Fehefin. Bydd yr athrawon yn ymweld â'r ysgol, yn cymeryd rhan mewn gwasanaeth, yn cyflwyno gwybodaeth am eu gwlad i'r plant, yn ymweld â'r dosbarthiadau ac yn cael taith dywys o gwmpas yr ysgol. Fel rhan o'r Prosiect Comenius yma, mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi creu pypedau. Pypedau ydynt o'u hunain. Tynnodd Mrs Nelmes luniau digidol a chreodd stori ddigidol i ddangos i'r plant o'r gwledydd eraill bywyd ysgol plentyn o Gymru. Mae'r ysgolion eraill wedi creu rhywbeth tebyg. Bydd yr athrawon yn aros yn Aberystwyth ac yn ymweld ag ysgolion eraill yng Ngheredigion, Canolfan Rheidol, y Ganolfan Dechnoleg Amgen ac yn cael cyfle i deithio o amgylch Ceredigion.



Ffarwelio

Ffarweliwyd â Mrs Lisa Byrne ein cogyddes ar ddiwedd yr hanner tymor gan ei bod yn dechrau ei chyfnod mamolaeth. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi ac estynnwn ein dymuniadau gorau iddi. Croesawn Mrs May Lauder i'r ysgol fel cogyddes dros-dro yn lle Mrs Byrne.

Barbeciw a Thwmpath

Bydd Barbeciw blyneddol yr ysgol yn cael ei gynnal ar nos Fercher Mehefin 8fed am 6yh. Bydd Twmpath yng nghwmni Mr Erwyd Howells ar y noson hefyd am 7yh. Dewch yn llw i gefnogi'r ysgol.

Beiciodd Mick Fothergill a Dai Dowsett yn ddiweddar o Land's End i John O'Groats, gan gwblhau'r 1,120 milltir mewn tair wythnos.

"Roeddem eisiau tipyn o her, wedi inni ymddeol yn ddiweddar, ac roedd hwn yn ymddangos yn ddelfrydol - cyfuno ein hoffter o chwaraeon gyda thaith drwy rai o ardaloedd mwyaf diddorol cefn gwlad Prydain".

"Roeddem yn cadw gymaint â phosib at ffyrdd llai prysur a ffyrdd 'B', gan deithio fel arfer rhyw 60 neu 70 milltir pob dydd a chwrdd â'n gwragedd, Jenny Fothergill a Su James, gyda'r nos. Efallai mai ganddyn nhw oedd y gwaith calet, tynnu carafan neu yrru carafan modur, siopa a dod o hyd i lefydd i wersylla!"

"Roeddem yn lwcus iawn gyda'r tywydd, yn eithaf oer ac yn heulog rhan fwy a'r dyddiau, gyda'r unig law sylweddol yn ne'r Alban am ryw bedwar awr un bore. Hefyd dim ond ychydig o broblemau gaethon ni efo'r beiciau - saith twll teiar ac un fraich olwyn (sbocsen) wedi torri rhyngddo'n ni - diolch i arwynebedd hewlydd gwael."

Hoffai Dai a Mick diolch i bawb a gefnogodd eu helusennau (RALI ac Achub Mynydd Lloegr a Chymru) ac edrychant ymlaen at yr her nesaf...

DD/CLI



Bedydd ym Methel

Ar fore dydd Sul, 15ed o Fai yng Nghapel Bethel, bedyddiwyd Osian Ifor Mason Lewis a Bleddyn Jac Mason Lewis, 20 Dôl Pistyll, gan y Parchedig Richard Lewis. Diolch yn fawr iawn i blant yr Ysgol Sul am ganu cân arbennig iawn i'r effeiliaid.

Bedydd yn Eglwys Dewi Sant

Bedyddiwyd effeiliaid, sef Alfie ac Isabelle, chwaer a brawd i Tia Johnson Jones, 89 Maes-y-deri ar Ddydd Sul 29 o Fai, gan y Parchedig Peter Jones, ei fedydd cyntaf yn yr eglwys.

Priodas Ruddem

Pob dymuniad da i Gwenllian ac Arvid Parry-Jones, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar y 12fed o Fehefin ac hefyd i Chris a Marie Fox, Y Bwthyn, Pentrebach oedd yn dathlu ar y 22ain o Fai.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd

Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison

01970 617269

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoiniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE

01970 832 304

yloffa@yloffa.com

www.yloffa.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mai, enwebwyd y Cyngorydd Eric Roberts i olynu'r Cyngorydd Gerwyn Jones fel Cadeirydd, a'r Cyngorydd Emyr Davies yn Is-gadeirydd. Enwebwyd y Cyngorwyr Rhian Evans, Delyth Ifan a Gerwyn Jones i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor Ariannol, a'r Cyngorwyr Nest Jenkins, Enoc Jenkins a Delyth Ifan ar Is-bwyllgor y Fynwent. Bydd y Cadeirydd yn gwasanaethu ar y ddau is-bwyllgor yn rhinwedd ei swydd.

Cytunwyd hefyd i barhau â'r drefn bod pob Cyngorydd yn aelodau o'r Is-bwyllgor Cynllunio.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad byr o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd derbyniadau'r Cyngor yn £16,212.56. Y prif ffynonellau incwm oedd *Archebiant* (£12,000); *Grant y Fynwent* (£3,136.56); *Derbyniadau'r Fynwent* (£488); *Ad-daliad TAW* (£579.42). Cyfanswm y taliadau am y flwyddyn oedd £15,754.91. Y prif daliadau oedd *Cymorthdaliadau* (£3,960); *Gweinyddol* (£3,620.75); *Costau'r Fynwent* (£2,378.84); *Costau Cynnal a Chadw Eiddo Arall* (£2,646.43); *Yswiriant* (£1,093.99); *Treth ar Werth* (£874.66) a *Goleuadau Nadolig* (£618.24).

Cyn ymadael â'r gadair, cyflwynodd y Cyngorydd Gerwyn Jones amlinelliad o'r prif faterion y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod ei dymor, yn arbennig felly y trafodaethau am Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Wrth gloi ei sylwadau diolchodd i'r aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth iddo yn ystod y flwyddyn, a cyflwynodd ddarlun cadarnhaol o'i brofiadau fel Cyngorydd. Dymunodd yn dda iawn i'w olynydd, a chwblhaodd ei anerchiad trwy ddyfynnu rhan o gerdd Robat Gruffudd i bentref Tal-y-bont.

Dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan gyfarfod mis Mai o'r Cyngor. Cyn croesawu'r aelodau'n ffurfiol, diolchodd y Cadeirydd newydd, y Cyngorydd Eric Roberts, i'w ragflaenydd am ei arweiniad rhagorol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.


Adroddwyd fod y plymwr wedi edrych i mewn i'r broblem gyda chyflenwad dŵr yn y Fynwent. Mae'n ymddangos i fecanwaith y tap gael ei niwedio adeg y tywydd oer ac nad oes modd ei drwsio. Cytunwyd i archebu tap newydd. Cytunwyd hefyd i ddirprwyo i'r Is-bwyllgor y gwaith o ddod i drefniant newydd i gadw'r tir pori'r gladdfa yn gymen.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth *SSE Renewables*, datblygwr Fferm Wynt Nant-y-moch, yn gosod safbwynt y cwmni ar y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Grŵp Cyswllt Cymunedol. Cytunwyd i fonf atynt yn cadarnhau bod y Cyngor yn cefnogi safbwynt y Cyngorau Cymuned eraill drwy wrthod arwyddo'r ddogfen.

Darllenwyd llythyr gan Ysgrifennydd Cyngor Plwyfol Elerch, yn gwrthod yr awgrym eu bod yn cyd-reoli'r hysbysfwrdd newydd yn Bont-goch. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn rheoli hanner 'swyddogol' yr hysbysfwrdd (gyda'r drws gwydr dan glo) ond na fyddai'r hanner arall (ar gyfer cyhoeddiadau cymunedol) yn cael ei gloi. Gobeithir codi'r hysbysfwrdd yn ystod mis Mehefin.

Trafodwyd tri chais cynllunio newydd ac anfonwyd sylwadau at yr Awdurdod Cynllunio. Croesawodd y Cyngorwyr y cais i ymestyn y ffordd a chreu mwy o fannau parcio a gofod cymunedol ym Maes-y-deri, a'r bwriad i osod paneli solar ar doean warws y Lolfa. Lluniwyd sylwadau hefyd ar y cais i godi dau dŷ annedd newydd ar bwys Rhiwlan, Tal-y-bont. Daeth canlyniadau dau gais cynllunio i law, sef bod yr Awdurdod Cynllunio wedi rhoi caniatâd i godi estyniad i Tŷ Capel, Bont-goch ac i wneud gwelliannau i'r Llew Du, Tal-y-bont. Adroddodd y Clerc fod y datblygwr oedd am godi pedwar tŷ ar bwys Dôl Pistyll, Tal-y-bont, wedi apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio i wrthod ei gais.

Derbyniwyd amcangyfrif gan y Cyngor Sir am y gwaith atgyweirio ar offer y Cae Bach y tynnwyd sylw ato yn ystod archwiliad blynyddol y cwmni yswiriant. Cytunwyd i dderbyn yr amcangyfrif ac i fwrw ymlaen â'r gwaith cyn gynted ag y bo modd.



*Cyngorydd Gerwyn Jones
a Cyngorydd Eric Roberts*



Llun trwy garedigrwydd Tim Jones

CFfl Tal-y-bont

Pinael calendr y ffermwyr ifanc yng Ngheredigion yw'r Rali flynyddol, lle llenwir diwrnod cyfan efo cystadlaethau amrywiol o farnu stoc a chneifio i goginio a thablo! Cynhaliwyd y Rali eleni ar fferm Pantydefaid, Prengwyn dan ofal enillwyr llynedd – Clwb Pontsiân.

Canlyniad cynta'r diwrnod oedd barnu gwartheg Henffordd gyda Aled Llyr yn ennill dan 26ain, Dewi Tyngraig yn ail dan 21ain a Richard John yn ennill dan 16eg, yn golygu bod y tîm yn ennill! Dechreuad da i'r diwrnod. Daeth mwy o lwyddiant yn y gystadleuaeth barnu – Merlod Cymreig Adran B, Geraint Cerrigaranau yn gydradd ail dan 26ain, Danielle Pryce yn gydradd gyntaf dan 21ain a Llyr Felinhen yn ail dan 16eg a'r tîm yn ennill yr adran. Yn adran barnu defaid Suffolk, daeth Elgan Tynant yn 4ydd dan 26ain, Dewi Tyngraig yn ail dan 21ain a Gwion Tanllan yn ail dan 16eg a'r tîm yn ennill! Richard John enillodd gwpan am yr unigolyn gorau o holl gystadleuwyr barnu gwartheg y dydd, ac hefyd yn rhannu'r cwpan efo Gwion Tanllan am roi'r rhesymau gorau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhannodd Aled Llyr y cwpan am yr unigolyn gorau yng nghystadlaethau barnu stoc dan 26ain. Talybont enillodd y cwpan am y clwb gorau trwy holl gystadlaethau'r barnu stoc. Ennill fu hanes Rhydian Tynant am Gneifio dan 26ain, a gyda'r tîm yn cynnwys Llyr Penbanc, dan 21ain yn ennill 'leni eto.

Brwydro'r Elfennau oedd thema'r Rali eleni, a thîm Manon Mai, Rhys Richards ac Elen Steddfa'n cipio'r ail wobr ar gyfer y gystadleuaeth 'Ar y Newyddion'. Lluniodd Llyr Felinhen fowlen wedi'i addurno â chregyn yn yr adran grefft gan ddod yn 5ed a chyfrannu i'r 11eg safle yng nghystadlaethau'r aelodau gyda'r coginio a'r blodau. Daeth Geraint Cerrigaranau a Llyr Penbanc yn 6ed yn Arwerthiant CFfl. Roedd Eleri Cwmudw yn un o bedair a enillodd gwpan am y cyfnod hiraf a dreulwyd dramor. Canlyniad ola'r dydd oedd y Tablo – dyfarnwyd Arch Noa yn drydydd. Ar ddiwedd y dydd dyfarnwyd Clwb Talybont yn bedwerydd!

Gyda'r canlyniadau gwych yma, 'roedd yn braf medru adnabod aelodau'r Clwb yn eu crysau newydd. Diolch am y nawdd gafwyd gan @ebol, Sean Byrne a'r Lolfa.

Gyda'r haf braf (croesi bysedd) ar y ffordd, edrychwn ymlaen i weld cynrychiolwyr y Clwb yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd.

Bydd rhagor o gystadleuthau a digwyddiadau yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf gan gynnwys chwaraeon y Sir, dathliadau'r Mudiad yn Ngheredigion yn 70 oed ac ail-sefydlu SPLASH ddiwedd y mis.




**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

CHWARAEON



Ar y Brig

Enillwyr Cynghrair Ieuenctid Aberystwyth, Adran 2, dan 11 oed yw Teirw Tal-y-bont. Maent wedi ennill 13 gêm, 1 yn gyfartal a dim ond colli 1 gêm trwy'r tymor. Sgoriwyd 67 o goliau, tipyn o gamp, daliwch ati, mae dyfodol disglair iawn i'r tîm bach ifanc yma.



Pêl-droed

Yn ddiweddar bu Nia Jones a Gwenno Evans yn chwarae pêl-droed i dim merched Gogledd Cymru o dan 14. Chwaraewyd y gêm yn erbyn De Cymru ar gae TNS yn Nghroesoswallt. Mae'r merched wedi bod yn mynychu sesiynau hyfforddi gyda charfan Gogledd Cymru ers blwyddyn bellach. Mae'r ddwy yn chwarae gyda'r bechgyn i dim dan 15 Tal-y-bont.

Cymdeithas Cae'r Odyn Galch Cyfarfod Blynyddol

Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Nos Iau 30 Mehefin am 7.30
Croeso i bawb

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Talybont a'r Cylch

Diwrnod Hwyl

**Dydd Sadwrn
25 Mehefin**

Pêl-droed

12.00pm - Cae'r Odyn Galch Talybont (5-bob-ochr)

Bwyd ar gael ar y maes

Twrnament 5-bob-ochr i blant dan 11 oed

Hwyaden Lwcus

5.00pm - Cae'r Odyn Galch Talybont

Barbeciwr

6.30pm - Llew Gwyn

Helfa Drysor

6.30pm - Patsyn Glas - £1

Cwis

6.30pm - Patsyn Glas - £1

Raffi - Gwobrau gwych

Rhagor o wybodaeth:
Ceri 01970 832543 / Mark 07967 487944 / Anthony 01970 832776

Cyfrifoldeb y rhieni fydd goruchwyllo'r plant



Gwnaed yng Nghymru, gwerthwyd yng Nghymru

Yn ddiweddar, mae Paul Dewhurst, gŵr busnes lleol, wedi achosi cynnwrf mawr ymhlith cefnogwyr beiciau Harley Davidson yn America. Cymaint o gynnwrf, yn wir, fel bod criw ffilmio'r sianel deledu Discovery wedi hedfan yn arbennig o'r Unol Daleithiau er mwyn llunio rhaglen ddogfen am ei feic newydd, y Norley.

Ac yntau wedi ei fagu yn Nhal-y-bont, treuliodd Paul ei brentisiaeth gyda chwmni Rolls Royce yn yr Amwythig ac mae ganddo brofiad helaeth o rasio beiciau modur Prydeinig gyda silindr mawr dwbl. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Paul wedi sianelu ei arbenigedd mewn peirianeg, a'i wybodaeth eang o rasio beiciau modur, i gynhyrchu fframiau o ansawdd uchel ar gyfer cwsmeriaid o lefydd mor bell i ffwrdd ag Ewrop, Canada, UDA ac Awstralia.

Mae cynllun diweddaraf Paul, y Norley, wedi ei seilio ar y ffrâm adnabyddus, y Norton. Yng ngeiriau Paul, 'trwy ffitio injanau'r Harley Davidson Sportster i'r Norley, mae'r beic yn haws o lawer ei drin oherwydd y craidd disgrychiant is, a'r sylfaen olwyn is mae'r ffrâm yn ei gynnig.' Nid oes yr un ffrâm arall ar gyfer y Sportster yn cynnig dull mwy manwl-gywir o drin y beic na'r Norley.

Mae gan Paul weithdy yn Llandre, a gellir cysylltu ag ef ar 01970 828 748. Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant, a phob dymuniad da i'r busnes yn y dyfodol.



Ailgylchu Biniau

Sylwer fod y cyngor wedi mynd â'r biniau ailgylchu o'r safle ger Cae Bach ONI BAI am yr un GWYDR gan na ellir rhoi gwydr yn y bagiau ailgylchu clir.
GOFYNNIR YN GAREDIG IAWN I'R RHAI SY'N GADAEL CANIAU, POTELI PLASTIG neu SBWRRIEL ar y safle yma i beidio gwneud hynny os gwelwch yn dda.